## Cymryd rhan yn y Broses Graffu

Mae cyfraniad trigolion lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o broses graffu Sir Gaerfyrddin ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon trigolion.

Cymryd rhan yn y broses graffu yw un o'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor, gan y bydd cynghorwyr yn cael clywed am eich profiadau yn uniongyrchol. Gallwch gymryd rhan yn y gwaith craffu yn y Cyngor mewn nifer o ffyrdd:

- Mynd i gyfarfod Pwyllgor Craffu
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y broses graffu
- Awgrymu pwnc i'w adolygu
- Cyfrannu tystiolaeth at adolygiadau craffu

Mae holl gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan fo angen trafod gwybodaeth eithriedig. Rhestrir dyddiadau cyfarfodydd ac agendâu yn nyddiadur cyfarfodydd y Cyngor. Os hoffech ddod i gyfarfod, yr unig beth y mae'n rhaid ichi ei wneud yw dod i fan cynnal y cyfarfod (a nodir ar flaen yr agenda).

Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch wneud cais am osod eitem ar yr agenda, ac os ydych yn byw yn Sir Gaerfyrddin, yn berchen ar fusnes yn Sir Gaerfyrddin neu'n cael eich cyflogi yno, gallwch ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn ein dogfen, Rheolau'r Weithdrefn Graffu 10.3 a 10.4. neu cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

### Awgrymu pwnc i'w adolygu

Os ydych yn credu bod pwnc y dylai'r Pwyllgor Craffu ei drafod, rhowch wybod inni. Gallwch awgrymu pwnc i'w adolygu drwy anfon neges e-bost atom, neu drwy lawrlwytho a phostio ein ffurflen awgrymu pwnc.

### Cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y broses graffu

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y broses graffu, er enghraifft gallwch:

- Danysgrifio i ffrwd RSS ar ein gwefan a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn awtomatig pan fydd agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi. Ystyr **RSS** yw "Syndicetiad Syml Iawn" ac mae'n ffordd hawdd o gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor Craffu. Mae modd tanysgrifio drwy wasgu'r botwm ar frig y dudalen hon.
- Lawrlwytho'r ap Modern.gov a fydd yn caniatáu i chi lawrlwytho a gweld papur y cyfarfod yn awtomatig
- Edrych ar ein ffrwd ar Facebook a Twitter i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

### Cyfrannu tystiolaeth at adolygiadau craffu

Wrth wneud gwaith craffu, yn enwedig adolygiadau manwl, mae cynghorwyr yn gobeithio cael ystod eang o dystiolaeth gan nifer o ffynonellau. Bydd cyflwyno tystiolaeth yn helpu i sicrhau eich bod yn cael lleisio'ch barn a bod y cynghorwyr yn gwneud argymhellion a fydd

yn gwella'r gwasanaethau o safbwynt y defnyddiwr. Os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw faterion a'ch bod am gyflwyno tystiolaeth, cysylltwch â ni.

**CYSYLLTWCH Â NI:- Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. craffu@sirgar.gov.uk**